

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Cofnodion CYP(3)-05-08

Dyddiad Dydd Iau 10 Ebrill 2008

Amser 1.15 - 1.40

Lleoliad Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd

Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Helen Mary Jones (Cadeirydd), Llanelli
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

Christine Chapman, Cwm Cynon
Lynne Neagle, Tor-faen

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

Helen Roberts, Cyngorydd Cyfreithiol

Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

Eitem 2: Rhaglen Waith Tymor yr Haf
CYP(3)-05-08(p.1)

2.1 Nodwyd y rhaglen waith. Gwnaed cais ar i'r Grŵp Arbenigwyr ar Dlodi Plant, dan gadeiryddiaeth Huw Lewis AC, gael gwahoddiad i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor.

Cam i'w gymryd:

Y Cadeirydd i ysgrifennu at Huw Lewis AC yn ei wahodd i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor fel Cadeirydd y Grŵp Arbenigwyr ar Dlodi Plant.

Eitem 3: Cynllun Gweithredu Rhianta CYP(3)-05-08(p.2)

2.1 Yn amodol ar un neu ddau o fân ddiwygiadau i'r llythyr ymgynghori ac ychwanegiadau at y rhestr o ymgynghoreion, cytunodd yr Aelodau ar y llythyr drafft.

Camau i'w cymryd:

Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio'r llythyr ymgynghori a'i ddsbarthu a chyhoeddi'r dogfennau ar dudalen y Pwyllgor ar y we.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i wneud gwaith ymchwil i fodelau arfer da mewn gwledydd eraill.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ebrill 2008